**Seminar 1: Y dull o weithredu'r cwricwlwm a dysgu sy'n canolbwyntio ar broses**

**Sleid 1 – Cyflwyniad**

Wedi i CCG ystyried y Cwricwlwm i Gymru ar 9 Mawrth yng Nghasnewydd, pwrpas y cyfraniad seminar hwn yw cefnogi pobl i feddwl yn ddyfnach am ddefnyddio'r dull proses i ymdrin â'r cwricwlwm a dysgu a'r hyn y gallai olygu i bobl pan maen nhw'n meddwl am y Cwricwlwm i Gymru, ac yn gweithio ag ef. O'r dystiolaeth a ddadansoddwyd gennym yn dilyn y digwyddiad hwnnw, daeth yn amlwg fod pobl yn awyddus i ystyried yr hyn y gallai trefn proses ei olygu i rôl yr athro, y rôl o ran gwybodaeth o'r pwnc, a rôl y dysgwr. Felly, rydym wedi cynllunio'r seminar hwn mewn ffordd sy'n ystyried y tri maes yma.

**Sleid 2 – Y Dull Proses**

I ddechrau, gallwn olrhain gwreiddiau'r dull proses ar gyfer y cwricwlwm a dysgu yn ôl drwy waith gwahanol feddylwyr a chyrff o waith. Mae'r dull proses ei hun yn ymwneud â datblygiad y disgybl a'r prosesau dysgu, ac mae'n cael ei siapio fel arfer gan egwyddorion ac amcanion trosfwaol. Mae'r syniadau hyn o ddatblygiad y dysgwr wedi eu cysylltu'n agos iawn â'r syniadau o dwf unigol a'r rôl bwysig y gall addysg ei chwarae yn y broses honno. Os edrychwn yn ôl i flynyddoedd cynnar yr 20fed ganrif, gwelwn fod yr athronydd addysgol John Dewey wedi siarad yn weddol amlwg am addysg fel proses o dwf unigol oedd yn canolbwyntio ar ddatblygu profiadau'r unigolyn. Os byddwn yn neidio ymlaen ychydig ddegawdau, yna fe welwn y syniadau hyn am dwf unigol wedi eu hadlewyrchu mewn dau brosiect allweddol sy'n chwarae rhan weddol bwysig yn stori'r dull proses. Gwelwn y cyntaf o'r rhain yng ngwaith Jerome Bruner yn yr 1960au, a gwelwn yr ail o'r rhain yng ngwaith Lawrence Stenhouse. Roedd prosiect cwricwlwm Bruner yn cynnwys datblygu cwrs o waith i'r ysgol gynradd o'r enw: 'Man: A course of study' lle cymerwyd safbwynt ymholi wrth ymdrin â dysgu sydd wedi ei ganolbwyntio ar y weithred o ofyn cwestiynau. I dywys addysgu a phrofiadau addysgol y disgyblion perthnasol, yn y prosiect arbennig hwn, roedd yr egwyddorion trosfwaol ar ffurf egwyddorion addysgeg.

Yn yr 1970au, datblygodd Lawrence Stenhouse Brosiect Cwricwlwm y Dyniaethau oedd hefyd yn mabwysiadu dull ymholi, ac a oedd yn croesi ffiniau pynciau'n bwrpasol. Roedd yn canolbwyntio ar un nod mewn cysylltiad â'r Dyniaethau, ac yn debyg i'r prosiect a wnaeth Bruner, datblygodd fanyleb ar gyfer addysgeg a dewis defnyddiau, yn hytrach na disgrifio cyfres o amcanion ymddygiadol. Roedd y gwaith a wnaeth Stenhouse yn y prosiect hwn wedi arwain i raddau mawr at gyhoeddi llyfr gan Stenhouse yn 1975 o'r enw: 'An introduction to Curriculum: Research & Development' lle'r oedd ef y cyntaf i esbonio beth mae pobl yn awr yn ei ddeall fel dull proses ar gyfer cwricwlwm a dysgu.

Byddwn yn cyfeirio at waith James McKernan hefyd yn y cyfraniad hwn, a chafodd ei waith ef ei ysbrydoli gan Stenhouse. Mae ef yn nodi bod y dull proses, y cyfeirir ato weithiau fel 'model datblygiad y dysgwr', yn ddull sy'n ystyried y cwricwlwm fel profiad addysgol parhaus yn hytrach na chynnyrch neu gyfres o ganlyniadau.

**Sleid 3 – Y Dull Proses**

Fel rydym wedi'i awgrymu, mae defnyddio dull proses ar gyfer y cwricwlwm a dysgu'n ffordd wahanol o feddwl i'r hyn y byddem yn ei weld pe baem ni, er enghraifft, yn defnyddio cwricwlwm cynnyrch. Mewn ffordd, ystyrir cwricwlwm proses yn gynnig ar gyfer proses o addysg yn hytrach na manyleb ar gyfer canlyniadau neu ddeilliannau dysgu ac addysgu. Wrth ystyried ei ddealltwriaeth ei hun o'r hyn yw cwricwlwm proses, mae James McKernan yn dadlau mai dyma ei ystyr: "c*ynnig sy'n disgrifio cynllun addysgol, yn cynnig gwybodaeth, agweddau, gwerthoedd, sgiliau a galluoedd sy'n cael eu gwerthfawrogi'n gymdeithasol i fyfyrwyr, ac sydd ar gael i fyfyrwyr drwy amrywiaeth o brofiadau addysgol, ar bob lefel o'r system addysg*."

Er bod gwybodaeth, gwerthoedd a sgiliau yn rhan o ddysgu yn union fel y byddent ar gyfer modelau eraill o gwricwla, mae'r ffocws ar ddysgu'n cynnwys meddwl yn wahanol sydd, yn ei dro, yn caniatáu i wahanol gwestiynau gael eu gofyn am gwricwlwm a dysgu. Fel y mae Mark Priestley yn dadlau: "…nid 'pa bynciau ddylem ni eu dysgu?' y dylem ei ofyn fel cwestiwn allweddol; yn hytrach dylem ofyn 'pa wybodaeth sydd fwyaf gwerthfawr?' a 'sut allem ni ddysgu hynny orau (e.e. drwy ddulliau rhyngddisgyblaethol neu wedi eu seilio ar bynciau)?"

**Sleid 4 – Beth mae hyn yn ei olygu wrth greu cwricwlwm?**

Felly, beth mae'r drefn hon o broses yn ei olygu mewn gwirionedd wrth greu cwricwlwm?

Gellir cael gwahanol ffurfiau o gwricwla sy'n defnyddio trefn proses, ond y gwirionedd yw nad oes glasbrint ar gyfer creu cwricwlwm. Does dim un weithdrefn gam wrth gam gywir i'w defnyddio, a gellir ystyried bod y ffordd y mae pobl yn datblygu'r cwricwlwm gan ddefnyddio'r drefn hon yn broses weddol greadigol lle byddent yn ymgysylltu â gwahanol rannau o'r cwricwlwm ac yn rhoi'r dysgu yn ei gyd-destun o fewn eu hysgolion a'u lleoliadau eu hunain. Yn hytrach na threfnu dysgu yn nhermau canlyniadau, bwriadau neu safonau cenedlaethol, mae'n defnyddio dibenion ac amcanion datblygiadol ehangach. Yna dewisir y cynnwys a datblygir y profiadau dysgu mewn ffordd sy'n helpu disgyblion i ddatblygu tuag at yr amcanion neu'r dibenion hyn. Mewn perthynas â'r Cwricwlwm i Gymru, mae'r dibenion eang hyn wedi cael eu sefydlu yn rhan o gynllun y cwricwlwm.

Mae creu cwricwlwm sy'n trefnu'n broses yn dibynnu'n weddol drwm ar wybodaeth athrawon am bynciau, addysgeg a'r dysgwyr eu hunain. Mae'r rhain i gyd, a'r cysylltiad gyda'r gwerthoedd a'r dibenion addysgol a ystyrir y bwysig yn y cwricwlwm, yn eu helpu i wneud dewisiadau am yr hyn sy'n cael ei addysgu a sut y gallai hyn gael ei ddysgu orau. Bydd y cynnwys a ddewisir yn defnyddio pynciau yn ogystal â phethau eraill a ystyrir yn bwysig i ddysgwyr, a dewisir y cynnwys pan benderfynir y byddai werth i'r disgyblion ymgysylltu ag ef. Wrth feddwl sut y bydd y cynnwys dethol hwn yn cael ei addysgu – y prosesau addysgeg os dymunwch – mae Mary James yn dadlau mai'r nod yn y fan yma yw helpu dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth y mae'n ei hehangu, ei dyfnhau, ei gwella a'i chyfoethogi. Wrth ddilyn dull proses, nid yw dysgu ac addysgu'n anelu at nod arbennig ond yn hytrach yn agor allan i gefnogi twf a datblygiad tuag at gyflawni'r amcanion a'r dibenion eang sydd wedi eu nodi yn y cwricwlwm.

Gan siarad o safbwynt proses, mae gan James McKernan ddyfyniad bach hyfryd sy'n dangos ychydig bach o natur y math hwn o ddatblygiad cwricwlwm. Meddai:

“Mae cwricwlwm yn beth o flas a beirniadaeth, sy’n profi grym creadigedd, ymchwil a gwerthusiad, ac yn galw ar rymoedd gorau ein dychymyg.”

**Sleid 5 – Beth mae hyn yn ei olygu o ran gwybodaeth?**

Felly, beth mae trefnu proses yn ei olygu o ran lleoliad gwybodaeth?

Wel, fel sy’n wir bron bob tro mewn addysg, mae iaith yn chwarae rôl bwysig iawn. Gallai’r ffaith bod ffocws mor agored ar brosesau dysgu gyda’r drefn arbennig hon awgrymu bod gwybodaeth wedi ei dadleoli rywsut, neu nad oes cynnwys yn y dull prosesau.

Wel, mewn gwirionedd, mae gwybodaeth a chynnwys yn chwarae rôl hynod o bwysig mewn cwricwla prosesau, yn union fel y maent gyda mathau eraill o gwricwla. Er bod gwahanol gwricwla’n fframio a gosod gwybodaeth yn wahanol o bosib, mae’n rhaid i bob cwricwla wneud penderfyniadau ynglŷn â pha wybodaeth sydd werth ei chael, ac i Lawrence Stenhouse, roedd gwybodaeth yn bwysig iawn.

Nawr, dydy’r dull prosesau ddim yn anwybyddu beth sydd i gael ei ddysgu, ond yn hytrach, mae’n fframio ac yn lleoli beth sydd i gael ei ddysgu mewn ffordd ychydig bach yn wahanol. Mae’n rhaid dewis cynnwys sydd werth ei gael wrth gwrs, ond mae pwyslais cryf ar ‘sut’ a ‘pham’ y mae’n rhaid ei ddysgu, a dyma pam mae’r prosesau dysgu’n dod mor bwysig.

Mae mabwysiadu dull proses ar gyfer y cwricwlwm a dysgu’n golygu nad yw gwybodaeth yn cael ei hystyried yn gynnwys i’w feistroli fel y byddech yn ei weld gyda dulliau cynnwys. Nid yw cynnwys yn dod fel bwriadau neu ganlyniadau sydd i gael eu cyflawni chwaith, fel y byddem yn ei weld gyda model amcanion neu gynhyrchion o’r cwricwlwm. Yn lle hynny, mae dysgwyr yn cael eu cefnogi i ddatblygu’n gyfannol drwy brofiadau dysgu lle maen nhw’n ymgysylltu’n feirniadol gyda gwahanol gynnwys a gwybodaeth. Yn y ffordd yma, mae’r cynnwys a’r wybodaeth gwerth eu dysgu a gwerthfawr hyn wedi eu cynnwys o fewn y profiadau dysgu sydd wedi eu llunio gan yr athro i alluogi i ddisgyblion ddatblygu dealltwriaeth ystyrlon o’r hyn sy’n cael ei ddysgu a’i archwilio.

Un peth terfynol sy’n bwysig ei gydnabod yn y fan yma yw bod modd i’r gwahanol sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth a addysgir drwy unrhyw gwricwlwm gael eu trefnu mewn ffyrdd amrywiol: gallent gael eu trefnu yn ôl pwnc, a allai hefyd gynnwys dulliau trawsgwricwlaidd; efallai y bydd nifer o feysydd cwricwlwm maes eang neu ryngddisgyblaethol; gellir cael themâu cwricwlaidd gwahanol y mae pethau wedi eu trefnu o’u hamgylch, ac nid ar wahân, ond maen nhw’n athraidd ac yn gallu cael eu dwyn ynghyd i archwilio ac ymholi i wahanol themâu mewn ffordd fwy integredig; gallai ymwneud â diddordebau plentyn lle ystyrir bod gwybodaeth yn cael ei datblygu gan ddysgwyr lle mae’r athro’n ei hwyluso i archwilio a dysgu mewn ffordd gwricwlar fwy integredig a phlentyn-ganolog.

Yn awr, waeth beth yw trefniant y cwricwlwm, y pethau pwysig i’w cofio wrth greu cwricwla sy’n trefnu proses yw’r cwestiynau a ofynnir gan Mark Priestley yr oeddem wedi cyfeirio atynt yn gynharach – pa wybodaeth sydd o’r gwerth mwyaf, a sut allem ni ei dysgu orau?

**Sleid 6 – Beth mae hyn yn ei olygu i rôl yr athro?**

Felly, ar ôl edrych ar y ffordd y gallem feddwl am wybodaeth mewn trefn o brosesau, rydym yn gofyn yn awr beth allai hyn ei olygu i rôl yr athro. Nawr, o'r hyn rydym wedi ei archwilio hyd yma, drwy waith pobl fel Stenhouse a McKernan, mae'n debyg ein bod yn dechrau cael synnwyr o'r hyn yw rôl yr athro o bosib mewn dull prosesau ar gyfer y cwricwlwm a dysgu. Er enghraifft, rydym yn gwybod eu bod yn dethol cynnwys gwerth ei gael, ac yn gwybod bod gwybodaeth yr athro am bwnc, gwybodaeth am addysgeg, a gwybodaeth y dysgwyr eu hunain yn hynod o bwysig o ran yr hyn sy'n ymddangos yn y pen draw fel proses weddol greadigol o ddatblygiad y cwricwlwm. Yn wir, fel y mae McKernan yn ei gydnabod, mewn dull prosesau, mae athrawon yn dod yn grewyr y cwricwlwm yn hytrach na darparwyr cynnwys y cwricwlwm. Yn wir, mae'n disgrifio rôl yr athrawon fel asiantau adeiladol y mae eu rôl yn gorffwys ar fyfyrio a beirniadaeth broffesiynol. Wrth ddadbacio rôl yr athro ychydig bach ymhellach, mae McKernan yn enwi tri dimensiwn gwahanol i hyn – dimensiwn creadigol, dimensiwn gwerthusol, a dimensiwn ymatebol. Mewn cwricwlwm sy'n trefnu mewn proses, rhan o rôl yr athro yw ymholi i wahanol ffyrdd y gall dysgwyr ymgysylltu â phrofiadau dysgu, ac adolygu ac esblygu'r cwricwlwm a'r agweddau addysgeg ar sail yr hyn maen nhw'n ei ddeall.

Yng nghyd-destun addysg, fel proses barhaus o dwf a datblygiad unigol, mae rôl yr athrawon yn un lle maen nhw'n creu'r cwricwlwm, maen nhw'n rhannu'r cwricwlwm hwnnw drwy'r arfer o addysgu, maen nhw'n ei werthuso drwy arferion yn y dosbarth a myfyrio proffesiynol, ac yn ei esblygu mewn ymateb i hyn.

**Sleid 7 – Beth mae hyn yn ei olygu i rôl yr athro?**

Fel crewyr cwricwlwm a dysgu, mae rôl yr athro yn y dull prosesau'n un sy'n grymuso mewn llawer o ffyrdd, ond mae hefyd yn un sy'n ddibynnol ar eu gwybodaeth o'r pwnc, y wybodaeth sydd ganddynt o'u disgyblion, y wybodaeth sydd ganddynt o ddulliau addysgeg, a'r cysylltiad sydd ganddynt â gwerthoedd a dibenion addysgol a ystyrir yn bwysig yn y cwricwlwm y maent yn gweithio ynddo.

Er gwaethaf y ffaith bod Knight yn ysgrifennu o safbwynt addysg uwch, mae'r arsylwadau a gynigir yma'n ddefnyddiol o ran y ffordd y gwelwn rôl yr athro. Mae'n dadlau bod y dull prosesau'n gofyn bod athrawon yn ystyried pa ddibenion addysgol sy'n ddymunol cyn "dychmygu sut i dynnu ynghyd y prosesau a'r ymgysylltiadau" sy'n debygol o beri i'r dibenion hyn gael eu cyflawni gan y disgyblion. Yr hyn y mae Knight yn tynnu sylw ato yma yw pwysigrwydd y ffordd y mae athrawon yn meddwl drwy addysgeg, sut maen nhw'n rhesymu am addysgeg, ac mae hefyd yn cydnabod bod yn rhaid i ddulliau addysgeg allu addasu – byddent yn amrywio yn ôl oed y dysgwr, lle maen nhw o ran eu dysgu, a chymhlethdod y mathau o wybodaeth a chynnwys y mae'r disgyblion yn eu dysgu.

Mae addysgeg, mewn dull proses, yn gofyn bod yr athro'n creu ymgysylltiadau ystyrlon gyda gwybodaeth werth ei chael, y gall y disgyblion ddatblygu trwyddynt i gyflawni'r amcanion a dibenion cyffredinol.

Yn y pwynt bwled terfynol, rydym yn tynnu sylw at gwestiwn a ofynnwyd gan Mary James, sy'n ein herio i feddwl am addysgeg yn y tymor hirach. Mae hi'n gofyn: pa brosesau addysgeg fydd yn annog dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth sydd wedi ei "gyfoethogi" ar draws eu gyrfaoedd ysgol?